

# GWERS 1 CYFLWYNIAD I'R GOSB EITHAF



## YNGLŶN Â'R WERS HON

Caiff y disgyblion eu cyflwyno i ddefnydd y gosb eithaf. Byddant yn ystyried achosion dau ddyn a ddedfrydwyd i farwolaeth: Mirza Tahir Hussain ym Mhacistan a Troy Davis yn UDA (gweler y nodiadau achos manwl ar dudalen 14). Bydd disgyblion yn penderfynu ar ba hawliau yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR) sydd ynghlwm wrth yr achosion hyn, ac yn gwerthuso'r barnau yn y ffilmiau yn feirniadol; maent yn cynnwys Martina Davis-Correia yn siarad am ei hymgyrch i ryddhau ei brawd Troy.

## AMSER

**1 wers/1 awr**  
(neu 2 wers i ganiatáu mwy o drafod).

## AMCANION DYSGU

Mae'r wers hon yn galluogi disgyblion i:

- werthuso'n feirniadol y dadleuon o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf;
- mynegi a chyfiawnhau safbwyntiau personol;
- adnabod ac enwi amrywiaeth o hawliau dynol o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR);
- dysgu am sefydliad rhyngwladol sy'n gweithio ar hawliau dynol.

## SGILIAU

Meddwl, holi a gwerthuso'n feirniadol; trafod a chyfiawnhau barnau a gwerthoedd; cyfrannu at drafodaeth y grŵp a chyflwyno dadleuon argyhoeddiadol.

## CYSYLLTIADAU Â'R CWRICWLWM

Edrychwch ar y DVD.

## DYSGU BLAENOROL

Mae'r wers hon yn cymryd bod gennych ryw wybodaeth am ddefnydd y gosb eithaf trwy wersi Saesneg, AG, Hanes neu Ddinasyddiaeth.

## YR HYN SYDD EI ANGEN ARNOCH

Ar gael ar y DVD oni bai y dywedir yn wahanol.

### Ar gyfer pob disgybl:

- Papur pleidleisio (pleidlais gyntaf ac ail bleidlais)
- Taflen waith cwis ar y gosb eithaf
- Taflen wybodaeth am fod o blaid ac yn erbyn y gosb eithaf
- Nodiadau achos rhai a anfonwyd i res yr angau (hefyd ar dudalen 14)
- Taflen waith astudiaeth achos
- Fersiwn gryno'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (hefyd ym mhoced y pecyn hwn)

### Ar gyfer yr athro/athrawes:

- Atebion y cwis ar y gosb eithaf
  - Taflen i'r athro ar yr astudiaeth achos
  - Nodiadau achos rhai a anfonwyd i res yr angau (hefyd ar dudalen 14)
  - Erthygl 'Mae gennyf ewythr ar res yr angau' (ar gyfer cefndir; gellir hefyd ei roi i'r disgyblion)
  - PowerPoint: Cyflwyniad i'r gosb eithaf, Gwers 1
- Mae'r ffilmiau canlynol yn Saesneg yn unig ac maent yn parhau am naw munud.**
- Ffilm: Mirza Tahir Hussain (ceir fersiwn hirach o'r ffilm hon ar [www.teachers.tv/videos/secondary-citizenship-letters-to-death-row](http://www.teachers.tv/videos/secondary-citizenship-letters-to-death-row))
  - Ffilm: Troy Davis




Uchod: Brawd Mirza Tahir Hussain yn ymgyrchu y tu allan i lysgenhadaeth Pacistan, gyda chefnogaeth Amnest Rhyngwladol mewn cais i atal Mirza rhag cael ei ddienyddio.

# GWERS 1

## CYFLWYNIAD I'R GOSB EITHAF

'Mae'r sticer ar y bympar yn dweud "Pam rydym yn lladd pobl sy'n lladd pobl i ddangos bod lladd yn anghywir?" Ac rwyf yn cytuno â hynny.'

Richard Hughes, drymiwr Keane



Uchod: Richard Hughes y tu allan i'r Tŷ Gwyn, UDA, Medi 2009

### DOLENNI DEFNYDDIOL

- [www.amnesty.org.uk/education](http://www.amnesty.org.uk/education)  
Detholiad o gynlluniau gwersi ac adnoddau addysgol ar y gosb eithaf.
- [www.amnesty.org.uk](http://www.amnesty.org.uk) a [www.amnesty.org](http://www.amnesty.org)  
Yr adroddiadau a'r achosion ymgyrchu diweddaraf ynglŷn â'r gosb eithaf.
- [www.worldcoalition.org](http://www.worldcoalition.org)  
Gwybodaeth ar Glymblaid y Byd yn Erbyn y Gosb Eithaf.
- **YouTube**  
Colin Firth, cyflwyniad Amnest ar y gosb eithaf.
- **Cynllun gwera Amnest UDA**  
[www.amnesty.org.uk/lifeanddeath](http://www.amnesty.org.uk/lifeanddeath)  
Adnodd addysgol ar bob agwedd ar y gosb eithaf, gyda saith gwera a thafenni gwaith.

### FFILMAU AM Y GOSB EITHAF

- The Exonerated*** (gwnaed ar gyfer y teledu)  
Hanesion gwir chwech o bobl a anfonwyd i res yr angau ond a gafodd eu difeio'n ddiweddarach, a'u rhyddhau.
- Dead Man Walking*** (15)  
Stori wir Y Chwaer Helen Prejean sy'n sefydlu perthynas â charcharor ar res yr angau.
- Let Him Have It*** (15)  
Sut cafodd Derek Bentley ei grogi am lofruddio yn y DU o dan amgylchiadau dadleuol.
- To Kill a Mockingbird*** (PG)  
Mae cyfreithiwr yn amddiffyn dyn croenddu rhag cyhuddiad o drais nad oedd yn ei haeddu.
- 12 Angry Men*** (U)  
Mae rheithgor mewn prawf lofruddiaeth yn penderfynu ar ffawd y diffynnydd.
- The Life of David Gale*** (15)  
Cyhuddir ymgyrchydd sydd yn erbyn y gosb eithaf o lofruddio gweithredydd arall a chaiff ei anfon i res yr angau.

# GWERS 1

## NODIADAU ACHOS

### MIRZA TAHIR HUSSAIN

#### ROEDD MIRZA TAHIR HUSSAIN YN 18 OED PAN GAFODD EI ARESTIO A'I DDEFDRYDU I FARWOLAETH AM LOFRUDDIO GYRRWR TACSI YM MHACISTAN

##### Beth ddigwyddodd?

Ym mis Rhagfyr 1988, hedfanodd Mirza, 18 oed, dinesydd deuol Prydeinig a Phacistanaid o Leeds, i Bacistan i ymweld â pherthnasau. Cafodd ei arestio am lofruddio gyrrwr tacsi a dynnodd ddrill allan, yn ôl pob sôn, a cheisio ymosod arno. Yn y frwydr a ddilynodd, ffrwydrodd y drill. Honodd Mirza y cafodd y gyrrwr ei ladd mewn hunanamddiffyniad. Cafodd ei ddefdrydu i farwolaeth gan y llys sesiwn yn Islamabad ym mis Medi 1989.

##### Y broses gyfreithiol

Ym 1992 gorchynnodd Uchel Lys aildreial, ond ym 1994 dedfrydodd llys arall ef i garchar am oes. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ym Mai 1996, cafodd Mirza ei aildreialu a rhyddfarnodd yr Uchel Lys ef o lofruddiaeth. Cyn iddo gael ei ryddhau, fodd bynnag, cafodd ei achos ei gyfeirio at y Llys Shari'a Ffederal, sydd ag awdurdodaeth dros achosion o ladrata pen ffordd. Ym Mai 1998 dedfrydwyd y llys Shari'a ef i farwolaeth o ddwy bleidlais i un, a gwrthododd apeliadau dilynol. Ym Mai 2006 dosbarthodd yr Arlywydd Musharraf y cyntaf o dri ataliad dienyddio. Ar 16 Tachwedd 2006 defnyddiodd yr Arlywydd ei bwerau o dan y cyfansoddiad er mwyn cymudo'r ddefdryd o farwolaeth i ddefdryd am oes. O dan gyfraith Pacistan roedd hyn yn gyfystyr â chyfnod o 14 blynedd. Gan fod Mirza eisoes wedi bod yn y carchar ers 18 o flynyddoedd, cafodd ei ryddhau a dychwelodd adref i Loegr. Erbyn hynny, roedd yn 36 oed.

##### Yr ymgyrch

Cafodd ei deulu gefnogaeth ASau, ASEau a charfannau dwyn pwysau o bob cwr o'r byd gan gynnwys Treialon Teg Tramor ac Amnest Rhyngwladol, gyda'r aelodau'n apelio am faddeuant gan yr Arlywydd. Rhoddodd brawd Mirza, Amjad Hussain, gyfweiliadau di-rif i'r cyfryngau wrth iddo ymgyrchu am ei ryddhau, a digwyddodd gwrthdystiadau a phrotestiadau mewn nifer o wledydd yn erbyn penderfyniad llys y Shari'a. Yn y DU, ymyrrodd Y Tywysog Charles a chredir bod y Prif Weinidog ar y pryd, Tony Blair, wedi codi'r achos gyda'r Arlywydd Musharraf.

##### Yn ei eiriau ei hun

'Rydw i'n gwerthfawrogi'r holl ymdrechion ar fy rhan i, yn enwedig rhai'r cyfryngau ac Amnest Rhyngwladol. Arweiniodd yr ymdrech at fy mhardwn yn y pen draw. Ar ôl 18 mlynedd gallwn i ddod adref o'r diwedd.'



'Treuliais 12 mlynedd o'm bywyd ar res yr angau a ches i bedwar dyddiad ar wahân ar gyfer fy nienyddio. Roeddwn i'n ffodus, llwyddais i oroesi rhes yr angau ym Mhacistan. Beth am y rhai na fydd yn gwneud hynny, o bosibl?... Dylai'r Arlywydd Musharraf ddangos y dewrder gwleidyddol i rewi pob dienyddiad ym Mhacistan.'

Mirza Tahir Hussain



# GWERS 1

## NODIADAU ACHOS

### TROY DAVIS

**ERS IDDO FOD YN 19 OED, BU TROY DAVIS AR RES YR ANGAU YN GEORGIA, UDA, AM LOFRUDDIAETH MAE E'N MYNNU EI FOD HEB EI CHYFLAWNI**

#### Beth ddigwyddodd?

Yn ystod oriau mân 19 Awst 1989, cychwynnodd ymladd mewn maes parcio yn Savannah, Georgia - cafodd dyn digartref, Larry Young, ei guro. Rhedodd swyddog heddlu, Mark Allen MacPhail, nad oedd ar ddyletswydd, at y digwyddiad i helpu a saethwyd ef yn farw. Cyfaddefodd Sylvester 'Red' Coles y bu'n ymladd gyda Larry Young ond honnodd fod Troy Davis wedi saethu swyddog MacPhail. Ym 1991 cafodd Troy ei gyhuddo o lofruddiaeth, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth gorfforol a oedd yn ei gysylltu â'r drosedd ac mae saith allan o'r naw tyst, y cafodd Troy ei euogfarnu ar sail eu dystiolaeth, ers hynny wedi datgyffesu neu newid eu dystiolaeth. Yn y treial, cyfaddefodd Troy ei fod yn bresennol yn y lle ond mae e bob amser wedi mynnu ei fod yn ddiuog.

#### Y broses gyfreithiol

Mae Troy wedi wynebu tri dyddiad dienyddio dros y blynyddoedd diwethaf - roedd o fewn dwy awr o gael ei ddienyddio ar un achlysur. Yn Awst 2009 digwyddodd rhywbeth annisgwyl - enillodd yr hawl i wrandawriad tystiolaethol newydd - cyfle i brofi ei fod yn ddiuog - mae i fod i ddigwydd ar 23 Mehefin 2010.

**NODER:** Ar adeg yr ysgrifennu (Mai 2010) roedd Troy Davis ar res yr angau o hyd yn aros am ei wrandawriad tystiolaethol newydd. Gorchymynnwyd gan y Llys Goruchaf 'i dderbyn tystiolaeth a darganfod ffeithiau a yw tystiolaeth nad oedd ar gael adeg y treial yn pennu dieuogrwydd'. Bydd y gwrandawriad yn digwydd mewn llys rhanbarthol ffederal yn Savannah, UDA. Mae'n genhadaeth canfod ffeithiau, nid treial newydd. Cymerir bod Troy yn euog ac arno fe mae'r baich o gynhyrchu ffeithiau sy'n dangos yn glir ei fod yn ddiuog. Os bydd yn gwneud hyn, gallai'r barnwr roi 'rhyddhad' i Troy ar seiliau 'dieuogrwydd gwirioneddol', neu gallai hyn ddod yn uniongyrchol o'r Llys Goruchaf. Os na fydd yn gwneud hyn, gallai'r barnwr glirio'r ffordd er mwyn gosod dyddiad arall ar gyfer ei ddienyddio. I gael y newyddion diweddaraf ar ei achos, ewch i [www.amnesty.org.uk/lifeanddeath](http://www.amnesty.org.uk/lifeanddeath)

#### Yr ymgyrch

Mae chwaer Troy, Martina Davis-Correia, wedi brwydro i ryddhau ei brawd ers dros 18 mlynedd. Martina yw cydlynnydd Amnest Rhyngwladol ar gyfer diddymu cosb eithaf talaith Georgia. Bu Amnest yn ymgyrchu dros Troy



Uchod: Troy Davis, 26 Medi 2009, yn y carchar.

ers cyhoeddi adroddiad ar ei achos yn 2007. Yn 2009 ymwelodd dirprwyaeth o Amnest Rhyngwladol DU, a oedd yn cynnwys Richard Hughes o'r band Keane, â'r UDA a Troy Davis er mwyn cefnogi'r ymgyrch i'w ryddhau, ac ymwelodd Martina a'i mab De'Jaun ag Amnest DU i godi ymwybyddiaeth am ei achos.

#### Yn ei eiriau ei hun

'Hoffwn ddiolch i chi i gyd o waelod fy nghalon oherwydd bod fy nheulu a finau wir angen mwy o bobl allan yn brwydro drosom a gweithredu fel llais a dangos cefnogaeth. Ac rydych i gyd wir wedi agor llygaid pobl ym mhob cwr o'r byd am anghyfiawnder, nid yn unig i mi, ond am system gyfreithiol yr Unol Daleithiau. Ac mae'n anrhydedd eich cael i gyd - eich cyfeillgarwch, eich cefnogaeth, eich llythyrau a'ch gwaith fel gweithredwyr, mae wir yn golygu llawer'.



Er mwyn trafod defnydd y gosb eithaf ar gyfer pobl sy'n euog neu fel cyfiawnder ar gyfer teulu'r dioddefwr, edrychwch ar achos Billy Moore. Treuliodd bron 17 o flynyddoedd ar res yr angau yn Georgia, UDA, am

lofruddiaeth y cyfaddefodd iddi, ond cafodd ei ddedfryd ei gymudo o farwolaeth i oes ar ôl i grŵp o deulu a ffrindiau'r dioddefwr gwyno yn erbyn ei ddienyddio. Flwyddyn yn ddiweddarach cafodd barôl. Ers hynny mae wedi treulio'i ryddid yn benderfynol o ddangos nad yw'r gosb eithaf yn datrys troseddau.

■ I gael mwy o fanylion:  
[www.amnesty.org.uk/lifeanddeath](http://www.amnesty.org.uk/lifeanddeath)

# GWERS 1

## CYFLWYNIAD I'R GOSB EITHAF

### CYNLLUN GWERS

#### 1 PLEIDLAIS A CHWIS AR Y GOSB EITHAF

**Amser:** 10 munud

**Sleidiau PowerPoint:** 1 i 5

Dosbarthwch y papurau pleidleisio a gofynnwch i'r disgyblion lenwi'r adran ar gyfer y bleidlais gyntaf. Esboniwch fod ticio 'Yn erbyn y gosb eithaf' yn golygu ar gyfer pob trosedd (gweler tudalen 6). Gofynnwch i'r disgyblion bostio eu papur pleidleisio i mewn i'r bocs pleidleisio. Cyfrifwch y pleidleisiau ac arddangos y canlyniad.

Dosbarthwch y *daflen waith ar gwis y gosb eithaf*, naill ai'n unigol neu i grwpiau. Rhowch bum munud i'r disgyblion ateb y cwestiynau. Ewch drwy'r atebion cywir a rhowch amser ar gyfer trafodaeth fer i ymdrin ag ymatebion y disgyblion. Eglurwch yr amcanion dysgu.

#### 2 YSTYRIED HAWLIAU

**Amser:** 25 munud

**Sleidiau PowerPoint:** 6 i 10

Cyflwynwch Amnest Rhyngwladol a'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (gweler y nodiadau cefndirol ar dudalennau 5 a 6). Rhowch allan gopi o *Fersiwn gryno'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol a'r Daflen waith ar Astudiaethau Achos* i bob disgybl. Gofynnwch iddynt ddarllen yr erthyglau yn y UDHR.

Cyflwynwch Mirza Tahir Hussain a Troy Davis, a gafodd eu carcharu'n annheg a'u rhoi ar res yr angau. Caiff y disgyblion hefyd ddarllen cyfweiliad nai Troy, *Mae gennyf ewythr ar res yr angau*. Dosbarthwch gopïau o'r Nodiadau achos am y rhai a anfonwyd i res yr angau. Efallai byddwch yn dymuno dangos y ffilmiau o Mirza Tahir Hussain a Troy Davis ar y DVD ond nodwch eu bod ar gael yn Saesneg yn unig. Mae'r ffilmiau'n parhau am naw munud.

Gofynnwch i'r disgyblion lenwi eu *Taflen waith astudiaeth achos* gan ganiatáu amser am drafodaeth wedyn.

Trafodwch eu hymatebion gan ddefnyddio *Taflen waith yr athrol athrawes ar yr astudiaeth achos* er mwyn ysgogi trafodaeth yn y dosbarth. Atgoffwch y disgyblion y gallant ymarfer eu hawl i ryddid barn a mynegiant, ac y gallant ymarfer yr hawl hwn boed iddynt deimlo bod y gosb eithaf yn gywir neu'n anghywir (gweler Addysgu Materion Dadleuol (tudalen 8))

**Gofynnwch gwestiynau myfyrio allweddol:**

- Ydych chi'n meddwl bod Amnest Rhyngwladol wedi cyflwyno golwg ddiduedd ar y gosb eithaf yn y nodiadau achos?
- Sut rydych chi'n meddwl bod teuluoedd Mirza a Troy yn teimlo?
- Pa gamau gweithredu, os unrhyw beth, rydych chi'n meddwl y dylid eu cymryd dros y carcharorion ar res yr angau?
- A yw euogrwydd/dieuogrwydd rhywun yn effeithio ar eich barn am y gosb eithaf?

#### 3 O BLAID NEU YN ERBYN?

**Amser:** 20 munud

**Sleidiau PowerPoint:** 11

Rhannwch y dosbarth yn ei hanner, wedyn rhannwch bob hanner yn grwpiau llai (mewn dosbarth o 30 o ddisgyblion, tua chwe grŵp, er enghraifft).

Dyrannwch un hanner y dosbarth O BLAID y gosb eithaf a'r hanner arall YN ERBYN y gosb eithaf. Dosbarthwch adran berthnasol y daflen *O blaid ac yn erbyn y gosb eithaf* fel sy'n briodol. Efallai bydd y disgyblion yn cael eu hunain mewn grŵp nad ydynt yn cytuno â'u barn. Esboniwch, at ddibenion yr ymarfer hwn, dylent geisio cydymdeimlo â barn wrthyferbyniol.

Rhowch bum munud i'r grwpiau ddarllen a myfyrio'n feirniadol ar y dadleuon. Dylent benderfynu pa ddadleuon sydd gryfaf, gan nodi rhesymau paham.

Gofynnwch i bob grŵp ddewis rhedwr i adrodd eu dewisiadau o fewn eu grŵp O BLAID ac YN ERBYN eu hunain, hy mae rhedwr grŵp un yn symud at grŵp dau, mae rhedwr grŵp dau yn symud i grŵp tri; mae rhedwr grŵp tri yn symud i grŵp un.

Wedyn dylai'r rhedwyr ar gyfer y grwpiau O BLAID ddewis dwy ddadl i'w cyflwyno i'r dosbarth. Dylai rhedwyr YN ERBYN wneud yr un peth.

Nawr gofynnwch i'r rhedwyr O BLAID ac YN ERBYN gyflwyno eu dwy ddadl i'r dosbarth. Efallai byddant yn dewis darllen yr holl ddadleuon sydd ganddynt ar goedd, ond amlygwch pam eu bod wedi dewis y ddwy benodol hyn.

Wedi clywed dwy ochr y ddadl, gofynnwch i'r disgyblion gwblhau adran *Fy marnau personol* eu taflen waith.

#### 4 CYFARFOD Y GRŴP CYFAN

**Amser:** 5 munud

**Sleidiau PowerPoint:** 11 i 13

Gofynnwch i'r disgyblion bleidleisio eto gan ddefnyddio eu papur pleidleisiau ar gyfer yr ail bleidlais. Cyfrwch y canlyniadau a'u cofnodi ar y bwrdd.

Os yw'r canlyniadau'n wahanol, trafodwch.

Ewch trwy sleid y pwyntiau dysgu allweddol a gofynnwch i'r disgyblion 'raddio' beth maent wedi ei ddysgu ar adran *Amcanion Dysgu* eu taflen waith.

Os ydych yn symud ymlaen at Wers 2, esboniwch y byddant yn cymryd rhan mewn trafodaeth ffug y Cenhedloedd Unedig ar ddiddymu'r gosb eithaf yn fyd-eang.

#### GWAITH YMESTYN/GWAITH CARTREF

- Chwiliwch yn y geiriadur am eiriau allweddol ar gyfer Gwers 2, ee moratoriwm, Cenhedloedd Unedig, Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, penderfynu, diddymu, cynnig, ymwrthod, llysgennad.
- Er mwyn cymryd camau gweithredu dros garcharorion ar res yr angau, gweler [www.amnesty.org.uk/lifeanddeath](http://www.amnesty.org.uk/lifeanddeath)

# GWERS 1

## PAPURAU PLEIDLEISIO

---

### DEFNYDD Y GOSB EITHAF

#### PLEIDLAIS GYNTAF

RWYF...

O BLAID	<input type="checkbox"/>
---------	--------------------------

YN ERBYN (ar gyfer pob trosedd)	<input type="checkbox"/>
---------------------------------	--------------------------

HEB BENDERFYNU	<input type="checkbox"/>
----------------	--------------------------

### DEFNYDD Y GOSB EITHAF

#### AIL BLEIDLAIS

RWYF...

O BLAID	<input type="checkbox"/>
---------	--------------------------

YN ERBYN (ar gyfer pob trosedd)	<input type="checkbox"/>
---------------------------------	--------------------------

HEB BENDERFYNU	<input type="checkbox"/>
----------------	--------------------------



### DEFNYDD Y GOSB EITHAF

#### PLEIDLAIS GYNTAF

RWYF...

O BLAID	<input type="checkbox"/>
---------	--------------------------

YN ERBYN (ar gyfer pob trosedd)	<input type="checkbox"/>
---------------------------------	--------------------------

HEB BENDERFYNU	<input type="checkbox"/>
----------------	--------------------------

### DEFNYDD Y GOSB EITHAF

#### AIL BLEIDLAIS

RWYF...

O BLAID	<input type="checkbox"/>
---------	--------------------------

YN ERBYN (ar gyfer pob trosedd)	<input type="checkbox"/>
---------------------------------	--------------------------

HEB BENDERFYNU	<input type="checkbox"/>
----------------	--------------------------



### DEFNYDD Y GOSB EITHAF

#### PLEIDLAIS GYNTAF

RWYF...

O BLAID	<input type="checkbox"/>
---------	--------------------------

YN ERBYN (ar gyfer pob trosedd)	<input type="checkbox"/>
---------------------------------	--------------------------

HEB BENDERFYNU	<input type="checkbox"/>
----------------	--------------------------

### DEFNYDD Y GOSB EITHAF

#### AIL BLEIDLAIS

RWYF...

O BLAID	<input type="checkbox"/>
---------	--------------------------

YN ERBYN (ar gyfer pob trosedd)	<input type="checkbox"/>
---------------------------------	--------------------------

HEB BENDERFYNU	<input type="checkbox"/>
----------------	--------------------------

# GWERS 1

## TAFLEN WAITH CWIS AR Y GOSB EITHAF

Enw: \_\_\_\_\_

**1** Faint o wledydd sydd wedi diddymu (neu wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio) y gosb eithaf ar gyfer pob trosedd?

**Pob un (197)                      139                      95**

**2** P'un yw'r unig wlad Ewropeaidd ar ôl sy'n defnyddio'r gosb eithaf?

**Belarus                      Gwlad Belg                      Portiwgal**

**3** Rhestrwch y chwe dull dienyddio a ddefnyddir amlaf.

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.
- 5.
- 6.

**4** Yn 2009, faint o ddienyddiadau a gofnodwyd a ddigwyddodd? (Ac eithrio China)

O leiaf:

**225                      714                      1,463**

**5** Esboniwch pam mae'r ffigur gwirioneddol yn debygol o fod yn uwch.

**6** Enwch y chwe phrif wlad yn y byd a oedd yn dienyddio yn 2009.

- 1.
- 2.
- 3.
- 4.
- 5.
- 6.

**7** Ym mha dalaith yn yr UD roedd y nifer fwyaf o ddienyddiadau yn 2009?

**New Mexico                      Texas                      Florida**

**8** Faint o garcharorion ar res yr angau yn UDA a gafodd eu clirio o'r drosedd a'u rhyddhau ers 1976, pan farnodd Llys Goruchaf yr UD y câi dienyddiadau ailddechrau ar ôl moratoriwm (rhewi) o bedair blynedd?

**10+                      30+                      130+**

**9** Faint o bobl o dan 18 oed ar adeg y drosedd, a gafodd eu dienyddio yn 2009?

**3                      7                      9**

**10** Ym mha flwyddyn diddymodd y DU y gosb eithaf yn ffurfiol ar gyfer pob trosedd?

**1945                      1998                      2005**

# GWERS 1

## ATEBION I'R CWIS AR Y GOSB EITHAF

I'r athro/athrawes.

Roedd y ffigurau'n gywir ar ddiwedd 2009.

Arddangoswch y map poster ar y gosb eithaf fyd-eang a geir ym mhoced y pecyn wrth drafod yr atebion.

**1** C. Faint o wledydd sydd wedi diddymu (neu wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio) y gosb eithaf ar gyfer pob trosedd?

**A. 95 ar gyfer pob trosedd (yn 2009).**

**Ffaith:** Dyma nifer y gwledydd sydd wedi diddymu'r gosb eithaf yn gyfan gwbl o'u cyfreithiau. Mae llawer mwy o wledydd yn ddiddymwyr o ran y gyfraith neu'n ymarferol, sy'n golygu bod ganddynt y gosb eithaf yn eu llyfrau cyfraith ond nid ydynt wedi dienyddio neb yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Diddymwyr ar gyfer troseddau arferol yn unig: 9**  
**Diddymwyr yn ymarferol : 35**

**2** C. P'un yw'r unig wlad Ewropeaidd ar ôl sy'n defnyddio'r gosb eithaf?

**A. Belarus**

**Ffaith:** Pasiodd Belarus ddwy ddeddfryd o farwolaeth yn ystod 2009 a dienyddiwyd dau garcharor ym mis Mawrth 2010.

**3** C. Rhestrwch y chwe dull dienyddio a ddefnyddir amlaf.

**A. (Yn eu trefn)**

**Torri pen**

**Llabyddio**

**Crogi**

**Trydanladdiad**

**Saethu**

**Pigiad marwol**

**Ffaith:** Torrodd Saudi Arabia bennau 69 o bobl yn gyhoeddus yn 2009.

**4** C. Yn 2009, faint o ddienyddiadau a gofnodwyd a ddigwyddodd? (Ac eithrio China)

**A. 714 o ddienyddiadau a gofnodwyd yn 2009.**

**Ffaith:** Roedd dienyddiadau mewn 18 gwlad yn 2009, ond nid yw'r ffigur 714 yn cynnwys China. Dienyddiodd China fwy o bobl na gweddill y byd gyda'i gilydd ond mae ystadegau'r gosb eithaf yn gyfrinach wladol. Mae tystiolaeth o flynyddoedd blaenorol a'r ffynhonnell bresennol yn dangos bod y ffigur yn ei filoedd.

**5** C. Esboniwch pam mae'r ffigur gwirioneddol yn debygol o fod yn uwch.

**A. Nid yw'r awdurdodau mewn nifer o wledydd yn rhyddhau ystadegau swyddogol na rhai sy'n gywir.**

**Ffaith:** Yn 2006, dienyddiodd China o leiaf 1,010 o bobl ond mae adroddiadau credadwy wedi datgelu bod y ffigur gwirioneddol yn agosach at 8,000 yn ystod y cyfnod hwn.

**6** C. Enwch y chwe phrif wlad yn y byd a oedd yn dienyddio yn 2009.

**A.1. China – nid yw'r ffigur yn hysbys**

**2. Iran 388+**

**3. Iraq 120+**

**4. Saudi Arabia 69+**

**5. UDA 52**

**6. Yemen 30+**

**Ffaith:** Cafodd saith o garcharorion a oedd o dan 18 oed ar adeg y drosedd eu dienyddio yn 2009. Gwaharddir hyn yn ddiamwys o dan gyfraith ryngwladol.

**7** C. Ym mha dalaith yn yr UD roedd y nifer fwyaf o ddienyddiadau yn 2009?

**A. Texas, lle gwnaed 24 o'r 52 o ddienyddiadau yn 2009.**

**Ffaith:** Ers i Cuba roi'r gorau i ddienyddio yn 2003, yr UDA oedd yr unig wlad yng ngwledydd America i ddienyddio, ac eithrio un dienyddiad yn St Kitts-Nevis yn 2008.

**8** C. Faint o garcharorion ar res yr angau yn UDA a gafodd eu clirio o'r drosedd a'u rhyddhau ers 1976?

**A. 130+**

**Ffaith:** Yn 2009, maddeuwyd i naw o garcharorion a ddeddfrydwyd i farwolaeth yn yr UDA a'u rhyddhau – ar ôl iddynt dreulio 121 o flynyddoedd rhyngddynt ar res yr angau.

**9** C. Faint o bobl o dan 18 oed ar adeg y drosedd, a gafodd eu dienyddio yn 2009?

**A. 7**

**Ffaith:** Ers 1990 mae Iran wedi dienyddio'r nifer fwyaf o droseddwyr sy'n blant – o leiaf 46. Gwnaed pump o'r dienyddiadau hyn yn 2009.

**10** C. Ym mha flwyddyn diddymodd y DU y gosb eithaf yn ffurfiol ar gyfer pob trosedd?

**A. 1998 (o dan Ddeddf Hawliau Dynol y DU)**

**Ffaith:** Gwnaed y dienyddiad olaf yn y DU yn 1964.



# GWERS 1

## DATGANIAD CYFFREDINOL O HAWLIAU DYNOL FERSIWN GRYNO



- 1 Ganwyd ni oll yn rhydd. Mae gennym ni oll ein meddyliau a'n syniadau ein hunain. Dylem oll dderbyn yr un fath o driniaeth.
- 2 Mae'r hawliau hyn yn eiddo i bawb, y tlawd a'r cyfoethog, ym mha wlad bynnag y byddwn yn byw, pa ryw neu liw croen, beth bynnag ein hiaith, beth bynnag a feddylw'n neu a gredwn.
- 3 Mae gennym oll yr hawl i fywyd ac i fyw mewn rhyddid a diogelwch.
- 4 Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n gwneud yn gaethweision. Ni allwn ni wneud caethwas o unrhyw un arall.
- 5 Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n brifo na'n poenydio.
- 6 Mae gennym oll yr un hawl i ddefnyddio'r gyfraith.
- 7 Yr un yw'r gyfraith i bawb. Mae'n rhaid iddi ein trin i gyd yn deg.
- 8 Gall pawb ofyn i'r gyfraith ein cynorthwyo pan na fyddwn yn derbyn triniaeth deg.
- 9 Nid oes gan unrhyw un yr hawl i'n carcharu heb reswm digonol, i'n cadw yn y carchar nac i'n halltudio o'n gwlad.
- 10 Os cawn ein gosod ar brawf, rhaid i hynny fod yn gyhoeddus. Ni ddylai'r rhai sy'n ein barnu ganiatáu i unrhyw un arall ddweud wrthyn nhw'r hyn y dylen nhw ei wneud.
- 11 Ni ddylid beio unrhyw un am wneud rhywbeth hyd nes y ceir tystiolaeth o euogrwydd. Pan fydd pobl yn dweud ein bod wedi gwneud rhywbeth drwg, mae gennym yr hawl i brofi nad yw hynny'n wir. Ni ddylai unrhyw un ein cosbi am rywbeth na wnaethom nac am wneud rhywbeth nad oedd yn anghyfreithlon pan wnaethpwyd y peth.
- 12 Ni ddylai unrhyw un geisio ddfwyo ein henw da. Nid oes gan unrhyw un yr hawl i ddod i mewn i'n cartref, i agor ein llythyron nac i'n haflonyddu ni na'n teuluoedd heb reswm da iawn.
- 13 Mae gennym oll yr hawl i fynd ble y mynnom yn ein gwlad ein hunain ac i deithio dramor yn ôl ein dymuniad.
- 14 Pan fyddwn yn ofni camdriniaeth yn ein gwlad ein hunain, mae gennym oll yr hawl i ffoi i wlad arall er mwyn bod yn ddiogel.
- 15 Mae gennym oll yr hawl i berthyn i wlad.
- 16 Mae gan bob oedolyn yr hawl i briodi a chael teulu pan fyddan nhw'n dymuno gwneud hynny. Mae gan ddynion a merched yr un hawliau pan fyddan nhw'n briod a phan fyddan nhw wedi gwahanu.
- 17 Mae gan bawb yr hawl i berchen pethau neu i'w rhannu. Ni ddylai unrhyw un fynd â phethau oddi wrthym ni heb reswm digonol.
- 18 Mae gennym oll yr hawl i gredu'r hyn y dymunwn ei gredu, i berthyn i grefydd neu i'w newid pan ddymunwn wneud hynny.
- 19 Mae gennym oll yr hawl i wneud ein penderfyniadau ein hunain, i feddwl yr hyn a fynnw'n, i ddweud yr hyn a fynnw'n ac i rannu ein syniadau â phobl eraill, ym mha le bynnag y byddan nhw'n byw, trwy lyfrau, radio, teledu a thrwy gyfryngau eraill.
- 20 Mae gennym oll yr hawl i gyfarfod â'n ffrindiau ac i gydweithio mewn heddwch i amddiffyn ein hawliau. Ni all unrhyw un ein gorfodi i ymuno â grŵp pan na fyddwn yn dymuno gwneud hynny.
- 21 Mae gennym oll yr hawl i gyfranogi yn llywodraeth ein gwlad. Dylid caniatáu i bob oedolyn ddewis arweinwyr eu hunain o dro i dro; dylai fod ganddo/ganddi bleidlais a honno'n bleidlais gyfrinachol.
- 22 Mae gennym oll yr hawl i gartref, i feddu ar ddigon o arian i fyw ac i gymorth meddygol pan fyddwn yn sâl. Dylem oll fod yn rhydd i fwynhau cerddoriaeth, celfyddyd, crefft a chwaraeon ac i wneud defnydd o'n sgiliau.
- 23 Mae gan bob oedolyn yr hawl i swydd, i gyflog teg am ei waith ac i ymuno ag undeb llafur.
- 24 Mae gennym oll yr hawl i orffwys o'n gwaith ac i ymlacio.
- 25 Mae gennym oll yr hawl i fywyd da, gyda digon o fwyd, dillad, tai a gofal iechyd. Mamau a phlant, pobl ddi-waith, hen bobl a phobl ag anabledd – mae gan bawb yr hawl i gymorth.
- 26 Mae gennym oll yr hawl i addysg ac i gwblhau addysg gynradd a ddylai fod am ddim. Dylem fod yn gallu dysgu ar gyfer gyrfa neu wneud defnydd llawn o'n sgiliau. Dylem ddysgu am y Cenhedloedd Unedig a sut i gyd-dynnu gyda phobl eraill ac i barchu eu hawliau. Mae gan ein rhieni'r hawl i ddewis sut a beth y byddwn yn ei ddysgu.
- 27 Mae gennym oll yr hawl i'n ffordd o fyw ein hunain ac i fwynhau'r pethau da a ddaw yn sgil gwyddoniaeth a dysg.
- 28 Mae gennym hawl i heddwch a threfn er mwyn i ni oll fwynhau hawliau a rhyddid yn ein gwlad ein hunain a thros y byd i gyd.
- 29 Mae gennym ddyletswydd tuag at bobl eraill, a dylem amddiffyn eu hawliau a'u rhyddid.
- 30 Ni all neb ddwyn yr hawliau a'r rhyddid hyn oddi wrthym.

Mae hyn yn fersiwn syml o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol gan Amnest Rhyngwladol. Am fersiwn llawn y Datganiad, gw. [www.un.org/en/documents/index.shtml](http://www.un.org/en/documents/index.shtml)

# GWERS 1

## O BLAID AC YN ERBYN Y GOSB EITHAF

### Y DADLEUON MAE POBL YN EU DEFNYDDIO O BLAID Y GOSB EITHAF

- 1 Y gosb eithaf yw'r gosb gywir ar gyfer y rhai sy'n mynd â bywyd i ffwrdd – llofruddion, terfysgwyr a'r rhai sy'n gwerthu cyffuriau. Dylai'r rhai sydd wedi mynd â bywyd i ffwrdd gael eu lladd – bywyd am fywyd.
- 2 Mae'r gosb eithaf yn atalrym. Mae'n rhaid bod ofn cael eu dienyddio'n rhwystro troseddwr rhag cyflawni llofruddiaeth os ydynt yn gwybod y byddant yn wynebu'r gosb eithaf os cânt eu dal.
- 3 Mae un peth yn sicr: ni fydd unrhyw un a gaiff ei ddienyddio yn lladd byth eto.
- 4 Barn y cyhoedd yw bod eisiau dienyddiadau.
- 5 Mae ar deuluoedd y sawl sy'n cael eu lladd angen cyfiawnder a dial.
- 6 Mae'n sicr y byddai'n costio llawer mwy o arian i gadw llofruddion yn y carchar yn gwneud dedfryd oes nag y byddai i'w dienyddio.
- 7 Mae'n fwy trugarog i ddienyddio rhywun nag i'w cadw dan glo am flynyddoedd.



### Y DADLEUON MAE POBL YN EU DEFNYDDIO YN ERBYN Y GOSB EITHAF

- 1 Mae dienyddio yn torri'r hawl i fywyd fel mae'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn ei ddweud.
- 2 Mae'n gosb greulon, annynol a diraddiol, boed gan raff y crogwr, y sgwad saethu, nwy gwenwynig, pigiad marwol, y cleddyf, llabyddio neu'r gadair drydan.
- 3 Nid yw'r gosb eithaf yn atal troseddau. Mae pob astudiaeth gan y Cenhedloedd Unedig ac eraill yn dangos nad yw'r gosb eithaf yn rhwystro troseddau'n fwy effeithiol na chosbau eraill.
- 4 Gall y llysoedd wneud camgymeriadau. Mae pobl ddiniwed yn cael eu dienyddio. Dangosodd astudiaeth ym 1987 y cafodd 350 o bobl ddiniwed eu condemnio i farwolaeth yn yr UDA ers 1900 a chafodd 23 ohonynt eu dienyddio.
- 5 Mae'r wladwriaeth yn cyflawni'r gosb eithaf yn ein gwneud ni i gyd yn lladdwyr. Os ydym yn cefnogi'r gosb eithaf am lofruddio, rydym yn cefnogi llofruddio yn y pen draw, sy'n ein gwneud yn euog o ragrith.
- 6 Mae'r gosb eithaf yn wahaniaethol ac fe'i defnyddir yn aml yn erbyn pobl o gefndiroedd tlawd neu o hiliau penodol, neu'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl.
- 7 Os caiff rhywun ei ddienyddio, nid oes ganddo unrhyw gyfle i newid ei fywyd na chyfrannu i'r gymdeithas mewn ffordd gadarnhaol.

# GWERS 1

## TAFLEN WAITH AR YR ASTUDIAETH ACHOS

---

Darllenwch y nodiadau achos a chofnodwch y wybodaeth isod.

Enw: \_\_\_\_\_

	ENGHRAIFFT O'R FFILMIAU/NODIADAU ACHOS	
	Mirza Tahir Hussain (Pacistan)	Troy Davis (UDA)
<b>Sut rydych chi'n teimlo ar ôl darllen y nodiadau achos?</b>		
<b>Pa hawliau dynol sydd ynghlwm wrth yr achosion hyn?</b>  (Gweler eich crynodeb o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol)		
<b>Sut mae'r teuluoedd a'r sefydliadau wedi ymgyrchu ar eu rhan?</b>		

**GWERS 1**  
**TAFLEN WAITH AR YR ASTUDIAETH ACHOS**  
**PARHAD**

---

Enw: \_\_\_\_\_

**FY MARNAU PERSONOL**

<b>Sut rwy'n teimlo am ddefnydd y gosb eithaf.</b>	
<b>Faint yn rhagor ydw i eisiau ei wybod am y mater hwn?</b>	
<b>Ydw i eisiau ceisio gwneud rhywbeth am y mater hwn? Os felly, beth?</b>	

**AMCANION DYSGU**

Ar ddiwedd y wers hon, gallaf:  
(Ticiwch)

	<b>IE</b>	<b>NAGE</b>	Angen mwy o wybodaeth
<b>Nodi hawliau dynol sy'n berthnasol i'r gosb eithaf o'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol (UDHR) a rhoi enghreifftiau o le caiff yr hawliau eu gwrthod.</b>			
<b>Myfyrto ar ddefnydd y gosb eithaf yn fyd-eang a mynegi a chyfiawnhau fy marnau fy hun.</b>			
<b>Archwilio'r mater amserol hwn a chyfrannu at drafodaethau grŵp o blaid ac yn erbyn ei ddefnyddio.</b>			
<b>Nodi sefydliad rhyngwladol sy'n gweithio ar hawliau dynol.</b>			



# GWERS 1

## TAFLEN YR ATHRO/ATHRAWES AR YR ASTUDIAETH ACHOS

Defnyddiwch y daflen hon i wirio ymatebion gan ddisgyblion ac i gefnogi eu dealltwriaeth.

ENGHRAIFFT O'R FFILMAU/NODIADAU ACHOS		
	Mirza Tahir Hussain (Pacistan)	Troy Davis (UDA)
<b>Sut rydych chi'n teimlo ar ôl darllen y nodiadau achos?</b>	Dylai'r disgyblion fyfrio naill ai ar eu pennau eu hunain, gyda phartner neu mewn grwpiau bach.	
<b>Pa hawliau dynol sydd ynghlwm wrth yr achosion hyn?</b> (Gweler eich crynodeb o'r UDHR)	Yn ogystal â'r hawliau a restrir, efallai bydd rhai eraill y mae'r myfyrwyr yn eu gweld yn briodol.	
	<b>Erthyglau</b> 3, 5, 7, 8, 9, 22 a 25	<b>Erthyglau</b> 3, 5, 7, 8, 9, 10 a 11
<b>Sut mae'r teuluoedd a'r sefydliadau wedi ymgyrchu ar eu rhan?</b>	Cyfeirwch at <i>nodiaid achos Rhai a anfonwyd i res yr angau</i> ar dudalen 14 a 15 y llyfryn.	
	<p><b>Teulu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cododd ymwybyddiaeth o'i achos</li> <li>Cafodd gefnogaeth gan ASau, ASEau a grwpiau dwyn pwysau o bob cwr o'r byd</li> <li>Rhododd brawd Mirza, Amjad, gyfweiliadau wrth ymgyrchu am ei ryddhau</li> <li>Bu ei deulu'n gweithio gydag Amnest Rhyngwladol</li> </ul> <p><b>Sefydliadau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cymerodd Amnest Rhyngwladol a Threialon Teg Tramor ran</li> <li>Apeliodd yr aelodau am bardwn gan yr arlywydd</li> <li>Gwrthdystiadau</li> <li>Protestiadau</li> <li>Diddordeb gan y cyfryngau</li> <li>Ymyrrodd y Tywysog Charles a Tony Blair</li> </ul>	<p><b>Teulu</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Bu teulu Troy, yn enwedig ei chwaer Martina a'i nai De'Jaun, yn ymgyrchu ers dros 18 mlynedd</li> <li>Bu ei deulu'n gweithio gydag Amnest Rhyngwladol a sefydliadau eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth am ei achos</li> <li>Mae Martina a De'Jaun yn teithio o gwmpas y byd yn rhoi sgysiau a chyfweiliadau er mwyn codi ymwybyddiaeth. Buont yn ymweld â'r DU yn 2009</li> <li>Ar y dechrau bu ei deulu'n curo drysau er mwyn siarad â phobl am achos Troy</li> <li>Gwnaethant y ffilm hon</li> <li>Helpon nhw i gael sylw'r cyfryngau ar gyfer achos Troy, yn enwedig ar y newyddion</li> </ul> <p><b>Sefydliadau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyhoeddodd Amnest adroddiad ar achos Troy yn 2007</li> <li>Ymwelodd dirprwyaeth o Amnest Rhyngwladol DU gan gynnwys Richard Hughes o'r band Keane â'r UDA a Troy yn 2009 er mwyn cefnogi ei ymgyrch</li> <li>Gwnaeth Amnest Rhyngwladol DU y ffilm a'r pecyn hwn mewn cydweithrediad â Martina, De'Jaun a Richard</li> <li>Mae Amnest yn anfon gwybodaeth ac yn siarad â phobl ifanc ac ysgolion am achos Troy. Mae pobl ifanc ym mhob cwr o'r byd wedi cymryd camau gweithredu ar ei ran</li> <li>Gwrthdystiadau</li> <li>Tudalennau gwe yn amlygu achos Troy</li> </ul>